Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar

Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007
Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007
Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2007
Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2007

Ystyriodd y Pwyllgor y pedwar rheoliad ar wahân uchod mewn cysylltiad â gofal plant sy'n derbyn gofal yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2007. Ystyriwyd y rheoliadau fel pecyn o ddarnau o ddeddfwriaeth cydberthnasol.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ar:

- Swyddogaethau, a'r berthynas rhwng y Byrddau Lleol Diogelu Plant, a'r Panelau awdurdodau lleol a fyddai angen eu sefydlu yn achos lleoli plentyn y tu allan i'r dalgylch, h.y sut fyddai'r ddau hanfod yn cael eu cysylltu ac yn rhannu gwybodaeth er budd y plentyn.

Hefyd gwnaeth yr aelodau'r sylwadau canlynol ar y rheoliadau:

- Yr oedd y gofyniad i blant gael gweithiwr cyswllt yn bwysig gan y byddai'r person hwnnw'n gweithredu fel eiriolwr dros y plentyn. Byddai'n fuddiol i'r plentyn neu'r person ifanc gadw'r un gweithiwr cyswllt ble bo'n bosibl pe byddai'n symud o un ardal awdurdod lleol i un arall, yn arbennig os nad oedd y lleoliad newydd yn bell iawn oddi wrth y lleoliad blaenorol.
- Dylai sefydlogrwydd y lleoliad ysgol hefyd fod yn egwyddor allweddol i'w chofio wrth ystyried lleoli plant sy'n derbyn gofal.
- Croesawodd y Pwyllgor y cyswllt â swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol, y ddarpariaeth archwiliadau iechyd blynyddol a throsglwyddo cofnodion yn sydyn sy'n ofynnol dan ddeddfwriaeth.

Mewn ymateb fe wnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y Pwyllgor:

- Yr oedd gan y Byrddau Lleol Diogelu Plant a'r Panelau awdurdodau lleol swyddogaethau gwahanol: ni fyddai'r Byrddau yn arferol yn ystyried achosion plant unigol, tra y byddai'r Panelau yn gwneud hynny. Byddai'n rhaid i'r Panel edrych ar achos plentyn sy'n symud tu allan i'r dalgylch a byddai hyn yn cynnwys ystyried unrhyw faterion diogelu ar gyfer y plentyn hwnnw. Ymhellach byddai dyletswyddau'r Swyddog Adolygu Annibynnol hefyd yn cael eu diwygio dan y rheoliadau i ychwanegu atynt ddyletswydd i fonitro'r trefniadau ar gyfer y plentyn hwnnw. Byddai'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn aelod o'r Panel sy'n cyfarfod i ystyried lleoliad plentyn y tu allan i'r dalgylch y mae'r plentyn yn byw ynddo'n arferol.

Argymhellodd y Pwyllgor gymeradwyo'r Rheoliadau fel y drafftiwyd hwy.

Gwenda Thomas AC
Cadeirydd Dros Dro